

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin  
2018 – 2033

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## Cynnwys

### 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Cefndir
- 1.2 Diben y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn
- 1.3 Cytundeb Cyflawni Diwygiedig
- 1.4 Effaith Covid-19
- 1.5 Lefelau Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol
- 1.6 Paratoi'r CDLI Diwygiedig
- 1.7 Profion Cadernid
- 1.8 Diwyg a chynnwys y CDLI
- 1.9 Sut y mae'r CDLI yn ymwneud â Chynlluniau a Strategaethau eraill?
- 1.10 Y posibilrwydd o baratoi CDLI ar y cyd
- 1.11 Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol
- 1.12 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- 1.13 Canllawiau Cynllunio Atodol

### 2. Yr Amserlen

- 2.1 Amserlen – Cyfnodau Allweddol
- 2.2 Gwneud Penderfyniadau

### 3. Cynllun Cynnwys Cymunedau

- 3.1 Cefndir
- 3.2 Pam cymryd rhan?
- 3.3 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol
- 3.4 Cynnwys pobl ym mhroses y CDLI
- 3.5 Disgwyliadau rhanddeiliaid
- 3.6 Sylwadau hwyr
- 3.7 Dulliau cynnwys, cyfranogi ac ymgynghori
- 3.8 Ymgysylltu dwyieithog a'r iaith Gymraeg
- 3.9 Adeiladu Consensws
- 3.10 Argaeledd dogfennau / adborth
- 3.11 Dulliau adborth
- 3.12 Monitro ac Adolygu

## Rhestr Termau

Atodiad 1 – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin – Amserlen

Atodiad 2 – Amserlen a Chynnwys y Gymuned

Atodiad 3 – Asesiad Risg a Mesurau Lliniaru

Atodiad 4 – Proffil y Sir

Atodiad 5 – Cyrff Ymgynghori

Atodiad 6 – Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin

Atodiad 7 – Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol

## Rhagarweiniad

### 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn mynnu bod Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac yn adrodd yn ei gylch i Lywodraeth Cymru ar adegau rhagnodedig. Er mwyn sicrhau bod asesiad rheolaidd a chynhwysfawr o ran p'un a yw cynlluniau'n parhau i fod yn gyfredol neu p'un a oes angen newidiadau, dylai awdurdod ddechrau adolygiad llawn Adran 69 o'i CDLI ar gyfnodau heb fod yn hwy na phob pedair blynedd o'r dyddiad mabwysiadu cychwynnol ac yna o'r dyddiad mabwysiadu olaf yn dilyn adolygiad dan Adran 69 (Rheoliad 41).

1.1.2 Bu i Gyngor Sir Gaerfyrddin (yr Awdurdod) fel rhan o broses y CDLI greu Adroddiad Adolygu sydd wedi nodi gofyniad i gynnal adolygiad llawn o'i Gynllun Datblygu. Mae'r materion a ystyrir yn yr adroddiad yn ddigon arwyddocaol i gefnogi'r gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig.

1.1.3 Defnyddiodd yr Adroddiad Adolygu adroddiadau monitro blynyddol cyhoeddus, tystiolaeth a gasglwyd trwy dystiolaeth arolwg ddiweddaedig, a dangosyddion cyd-destunol perthnasol i ategu'r safbwynt hwn.

1.1.4 Bydd CDLI mabwysiedig cyfredol Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn gynllun datblygu statudol y sir tan iddo gael ei ddisodli gan fersiwn diwygiedig o'r CDLI. Cyfeirir at y llythyr dyddiedig 24 Medi 2020 oddi wrth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol lle cadarnhawyd bod mabwysiadu'r CDLI cyfredol cyn 4 Ionawr 2016 yn gwneud darpariaeth iddo barhau i fod yn sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio nes iddo gael ei ddisodli gan y CDLI Diwygiedig sydd ar ddod. Mae'r CDLI Diwygiedig yn cwmpasu cyfnod Cynllun o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2033.

1.1.5 Unwaith i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu, bydd penderfyniadau ynghylch caniatadau cynllunio'n seiliedig yn bennaf ar ei gynnwys. Bydd hefyd yn ffurfio'r sail ar gyfer arwain rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol, gan gynnwys rhaglenni sefydliadau partner a darparwyr seilwaith. Bydd yn darparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch pa fath o ddatblygiad fydd ac na fydd yn cael ei ganiatáu yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'n pennu lefel y ddarpariaeth a lleoliad cyfleoedd tai a chyflogaeth newydd, ac yn gosod y fframwaith ar gyfer ystyried pob cynnig sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yn ystod cyfnod y Cynllun.

1.1.6 Bydd y Cynllun yn chwarae rhan gadarnhaol wrth nodi cyfleoedd ar gyfer twf a buddsoddiad, gan gynnwys dyrannu safleoedd priodol i'w datblygu mewn modd sy'n gytbwys yn erbyn amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd hefyd yn ystyried natur ieithyddol, gymdeithasol a diwylliannol cymunedau'r Sir.

### 1.2 Diben y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn

1.2.1 Mae'r rheoliadau a amlinellwyd uchod yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi a chymeradwyo Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi'r CDLI Diwygiedig. Wedyn bydd yn rhaid i hwn gael ei gymeradwyo yn ei dro gan Lywodraeth Cymru.

1.2.2 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ddatganiad cyhoeddus o ymrwymiad y Cyngor i baratoi'r CDLI Diwygiedig a sut a phryd y gall rhanddeiliaid, partïon â diddordeb a chymunedau gyfrannu at y gwaith o'i baratoi. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn gam statudol allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun, ac mae glynu wrth ei gynnwys cytunedig yn cynrychioli un o'r profion cadernid (gweler adran 1.7) yn ystod y cam archwilio cyhoeddus.<sup>1</sup>

1.2.3 Fel rhan o'i broses baratoi, bydd y CDLI Diwygiedig yn mynd trwy sawl cam allweddol (gweler Tabl 2). Dechreuodd hyn drwy gynhyrchu'r Cytundeb Cyflawni gwreiddiol. Mae Cytundeb Cyflawni yn cynnwys dwy ran: yn gyntaf, amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLI ac, yn ail, Cynllun Cynnwys Cymunedau.

#### **(i) Amserlen**

Mae'r amserlen yn manylu'r camau sydd ynghlwm wrth y gwaith o lunio a pharatoi'r CDLI, a sut y mae'r Cyngor yn bwriadu rheoli'r gwaith o'i baratoi. Mae'r amserlen yn cael ei rhannu'n ddau gam - diffiniol a dangosol - gan amlinellu prif rannau'r broses a, lle bo'n bosibl, darparu dyddiadau diffiniol. Mae'r camau hynny lle rhoddir dyddiadau dangosol yn gyffredinol yn gamau ôl-adneuo lle gallai ffactorau y tu hwnt i reolaeth y cyngor effeithio ar y broses. Er enghraifft, nifer y sylwadau a dderbynnir mewn perthynas â'r CDLI yn ystod ymarfer ymgynghori penodol.

#### **(ii) Cynllun Cynnwys Cymunedau**

Mae hwn yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid mewn modd ystyrlon drwy gydol proses y CDLI. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys rhestrau o'r grwpiau, y cyrff a'r unigolion hynny yr ymgynghorir â hwy yn ystod y broses o baratoi'r CDLI. Dylid nodi nad yw'r rhestrau hyn yn gynhwysfawr ac yr ychwanegir atynt fel y bo'n briodol trwy gydol proses y CDLI.

1.2.4 Mae'r Cytundeb Cyflawni'n rhan bwysig a statudol o'r gwaith o baratoi CDLI diwygiedig. Yn hyn o beth, nodir wrth archwilio'r CDLI y bydd unrhyw achosion o wro o'r Cytundeb Cyflawni nad yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno arnynt yn ffurfio prawf pwysig o 'gadernid' y cynllun. Yn y cyswllt hwn, mae'r Cytundeb Cyflawni, ei amserlen, a'r dulliau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio yn ystod y gwaith o baratoi'r cynlluniau yn hanfodol wrth sicrhau bod y cynllun yn cael ei baratoi mewn modd priodol, amserol a chynhwysol.

### **1.3 Cytundeb Cyflawni Diwygiedig**

1.3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Cytundeb Cyflawni yn rheolaidd a rhaid i unrhyw ddiwygiad gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r Cytundeb Cyflawni gael ei gyhoeddi a bod ar gael i fwrw golwg arno yn unol â Rheoliad CDLI 10. Cydnabyddir mai dim ond yn eithriadol y dylid ystyried amserlen ddiwygiedig wrth baratoi'r cynllun. Fodd bynnag, yn ei llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf 2020, cydnabu'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y bydd angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig lle bo effaith Covid-19 yn golygu na all awdurdod gydymffurfio â'r amserlen y cytunwyd arni'n flaenorol. Mae hyn wedi cael ei gymhlethu ymhellach gan yr

<sup>1</sup> Er mwyn i Gynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu, mae'n rhaid i'r arolygydd sy'n ei archwilio benderfynu ei fod yn 'gadarn' (Adran 64 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004). Nodir profion cadernid a gwiriadau yn Rhifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol - Rhifyn 3 Pennod 6. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf>

effeithiau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ffosffodau mewn Afonydd a ddynodwyd fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

1.3.2 Nodir bod Prif Gynllunydd Llywodraeth Cymru wedi'i awdurdodi i gytuno ar Gytundebau Cyflawni Diwygiedig i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cytuno i geisiadau am Gytundebau Cyflawni diwygiedig cyn gynted â phosibl mewn perthynas ag effaith Covid-19.

1.3.3 Wrth ddatblygu'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig, mae gofyn i'r Awdurdod ymgymryd â'r camau canlynol:

- Paratoi Cytundeb Cyflawni Diwygiedig;
- Ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y Cytundeb Cyflawni Drafft, ac â'r Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) (yr hen Arolygiaeth Gynllunio Cymru), Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch amserlen ddrafft;
- Ystyried a, lle bo'n briodol, adolygu cynnwys y cytundeb ar ôl ymgynghori yn ei gylch; a
- Cyflwyno'r cytundeb i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo

1.3.4 Ar ôl i Lywodraeth Cymru gytuno arno, caiff y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig ei gyhoeddi. Fel rhan o'r diwygiad cyntaf i'r Cytundeb Cyflawni, cafodd Asesiad Covid-19 ei gyhoeddi fel y bo'n ofynnol yn llythyr y Gweinidog.

## 1.4 Effaith Covid-19

1.4.1 Ar ddiwedd mis Ionawr 2020, datganwyd bod Covid-19 yn argyfwng iechyd cyhoeddus o bryder rhyngwladol (PHEIC) a bod ei effaith yn lledaenu ar draws cymdeithasau'r byd a ledled ein cymunedau.

1.4.2 Mewn ymateb i'r pandemig cynyddol, ar 18 Mawrth 2020 penderfynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin atal y rhan fwyaf o gyfarfodydd democrataidd, ac yna ar 19 Mawrth gwnaed penderfyniad i gau adeiladau gweinyddol yr Awdurdod.

1.4.3 Ar 23 Mawrth 2020 cyflwynodd Llywodraeth y DU "gyfyngiadau symud" llawn i atal lledaeniad y feirws. Yn ystod y misoedd dilynol gwelwyd nid yn unig colled trasig o ran bywydau ond hefyd yr effaith ar y ffordd mae ein pobl, ein busnesau, ein sefydliadau a'n cymunedau yn ymddwyn ac yn rhyngweithio ar lefel economaidd, gymdeithasol a diwylliannol.

1.4.4 Ar 7 Gorffennaf 2020 anfonwyd llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol. Yn y llythyr hwn, ailadroddod y Gweinidog rôl y cynlluniau datblygu hyblyg diweddaraf fel conglaen y system gynllunio. Mae'r llythyr yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac ystyried y canlyniadau i Gynlluniau Datblygu Lleol sy'n cael eu hadolygu neu eu gweithredu. Dylai'r Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, nad oeddent wedi'u cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio edrych arnynt eto, gynnal asesiad o'r sylfaen dystiolaeth, y strategaeth a'r polisiâu o ran sensitifrwydd i ganlyniadau'r pandemig. Paratowyd yr asesiad hwn ar y cyd â'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn ac mae'n rhan o ddogfennau'r CDLI.

1.4.5 Elfen allweddol o'r Cytundeb Cyflawni yw'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, sy'n nodi pwy, pryd a thrwy ba fodd y bydd cymunedau a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â phroses paratoi'r cynllun. Cydnabyddir bod pandemig Covid-19 wedi dylanwadu ar sut rydym yn cael

mynediad i adeiladau cyhoeddus ac yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau/digwyddiadau. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i gynnig y Llywodraeth yn y dyfodol o ran hyn, ynghyd â defnydd o ddulliau ymgynghori rhithwir er mwyn i gynydd allu cael ei wneud o ran y cynllun.

## 1.5 Lefelau Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol

1.5.1 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddata monitro ynghylch lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol, ynghyd â chanllawiau interim.

1.5.2 Cafodd y targedau ffosffad eu tynhau'n sylweddol yn 2016 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a chafodd y rhain eu mabwysiadu gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn erbyn y targedau hyn wedi dangos bod nifer o afonydd yng Nghymru heb gyrraedd y targedau hyn. Ar y cyfan, o blith y 106 o gyrff dŵr a aseswyd, bu i 42 (39%) ragori ar eu targedau ffosffad Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a bu i 65 (61%) fethu.

1.5.3 Efallai y bydd gan y methiannau hyn ganlyniadau arwyddocaol i'r Awdurdodau, yn enwedig o ran eu rôl fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Trwy ystyried "Dutch Case" Llys Cyfiawnder Ewrop, mae'n bosibl bydd unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer datblygiadau newydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig nad ydynt wedi bod yn cyrraedd eu targedau ffosffad, dim ond yn gallu nodi dim effaith niweidiol sylweddol os gall datblygiad ddangos niwtraliaeth o ran ffosffad neu welliannau o ran ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i'r corff dŵr.

1.5.4 Mae cyhoeddi Canllawiau Interim Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael effaith uniongyrchol ar gynydd y CDLI Diwygiedig a'i allu i gael ei baratoi yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni'n flaenorol. Yn hyn o beth, mae effaith ffosffadau mewn afonydd a warchodir yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun, ei ddogfennau ategol, a'i dystiolaeth gael eu hadolygu i sicrhau ei fod yn ystyried ei oblygiadau ac yn cydymffurfio â'r Profion Cadernid.

## 1.6 Paratoi'r CDLI Diwygiedig

1.6.1 Wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig rhoddwyd sylw i ddeddfwriaeth, polisi cenedlaethol, a chynlluniau, strategaethau, canllawiau a Chyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol eraill<sup>2</sup>, a delir ati i wneud hynny. Mae wedi a bydd yn cydnabod ac yn rhoi sylw i gynlluniau a strategaethau rhanbarthol a lleol, gan ystyried yn benodol darpariaethau Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, trwy ddarparu mynegiant defnydd tir o'r weledigaeth gyffredin ar gyfer sut y bydd y sir yn datblygu a newid yn ystod cyfnod y cynllun.

1.6.2 Mae'r CDLI Diwygiedig wedi cael ei lywio a'i ategu trwy ddatblygu sail dystiolaeth gyfredol a bydd hynny'n parhau. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion o ymgysylltu ac ymgynghori trwy gydol y gwaith o'i baratoi yn allweddol i'w ddatblygiad. Mae'r amserlen a nodir yn Adran 2 yn dangos camau allweddol paratoi'r cynllun, tra bo'r Cynllun Cynnwys Cymunedau'n manylu natur y dulliau ymgynghori a ddefnyddir. Yn ystod ymarferion ymgynghori o'r fath, caiff y rheini sy'n dymuno wneud sylwadau am y dogfennau yr ymgynghorir yn eu cylch.

<sup>2</sup> Ddeddfwriaeth UE oedd yn berthnasol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r DU cyn 11.00pm ar 31 Rhagfyr 2020 sydd wedi cael ei chadw yng nghyfraith y DU fel ffurf o ddeddfwriaeth ddomestig a elwir yn 'ddeddfwriaeth UE a gedwir'.

1.6.3 Anterth y broses gwneud cynlluniau fydd yr archwiliad annibynnol o'r CDLI Diwygiedig gan Arolygydd Cynllunio a benodir gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ystyried materion cysylltiedig â chadernid y Cynllun. Cyhoeddir canfyddiadau'r archwiliad yn Adroddiad yr Arolygydd, a bydd cynnwys ac argymhellion yr adroddiad hwn yn rhwymedig ar yr awdurdod.<sup>3</sup>

## 1.7 Profion Cadernid

1.7.1 Wrth asesu'r mater o gadernid, bydd yr Arolygydd Cynllunio'n rhoi sylw dyledus i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r Cynllun a'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cam Adneuo. Rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gydymffurfio â'r gofynion paratoi a sicrhau ei fod yn ystyried bod y Cynllun yn bodloni'r tri phrawf cadernid. Mae gan bob prawf gyfres o gwestiynau sy'n helpu i ddangos y materion a allai fod yn berthnasol o dan bob prawf. Nid yw'r rhestrau'n gynhwysfawr nac o reidrwydd yn berthnasol ym mhob achos.

### Gofynion Paratoi:

• A yw'r gwaith paratoi wedi cydymffurfio â gofynion trefniadol cyfreithiol a rheoleiddiol? (Rheoliadau CDLI, Cynllun Cynnwys Cymunedau, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac ati?)<sup>4</sup>

### Profion Cadernid:

**Prawf 1: A yw'r cynllun yn ffitio?** (a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?)

#### Cwestiynau

- A yw'n ystyried polisi cenedlaethol a Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040
- A yw'n ystyried Nodau Llesiant?<sup>5</sup>
- A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?
- A yw'n ystyried y Datganiad Ardal perthnasol?
- A yw'r Cynllun yn cydymffurfio ar y cyfan â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?
- A yw'r Cynllun yn cydymffurfio ar y cyfan â'r Cynllun Datblygu Strategol (pan gaiff ei fabwysiadu?)
- A yw'n gyson â chynlluniau, strategaethau a rhaglenni cyfleustod rhanbarthol?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau awdurdodau cyfagos?
- A yw'n ystyried Cynllun Llesiant Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?
- A yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dangos ei fod wedi rhoi cynnig ar bob cyfle i gydweithio o ran paratoi'r cynllun a'r sail dystiolaeth?

**Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

#### Cwestiynau

- A yw'n benodol i'r ardal leol?
- A yw'n mynd i'r afael â'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A oes modd dangos y rhesymeg y tu ôl i bolisiâu'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a asesir a chyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
- A yw'r opsiynau eraill 'go iawn' wedi'u hystyried yn briodol?

<sup>3</sup> Gellir canfod manylion mewn perthynas â'r broses gwneud cynlluniau yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 3. <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/development-plans-manual-edition-3-march-2020.pdf>  
Yr Arolygiaeth Gynllunio – Canllawiau Gweithdrefn Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol (Awst 2015) [Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol \(llyw.cymru\)](#)

<sup>4</sup> Mae canllawiau archwilio Arolygiaeth Cynllunio Cymru (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru bellach) ar gael ar wefan Llywodraeth [Cynlluniau datblygu lleol \(CDLlau\): y broses archwilio | LLYW.CYMRU](#)

<sup>5</sup>Fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
- A yw'n gydgysylltiedig ac yn gyson?
- A yw'n glir ac a oes ffocws iddo?

**Prawf 3: A fydd y cynllun yn gweithio** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

**Cwestiynau**

- A fydd yn effeithiol?
- A oes modd ei weithredu?
- A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol o ran arian ac o ran cadw at yr amserlenni perthnasol?
- A fydd y datblygiad yn hyfyw?
- A oes modd cyflawni'r safleoedd a ddyrannir?
- A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?
- A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?

## 1.8 Diwyg a Chynnwys y CDLI

1.8.1 I gydweddu â chanllawiau, bydd strwythur drafft arfaethedig y CDLI Diwygiedig fel a ganlyn:

- Rhagarweiniad;
- Strategaeth (gweledigaeth, materion strategol, polisiâu allweddol, nodau ac amcanion allweddol, a thargedau monitro ac ati);
- Nodi safleoedd strategol ac adfywio;
- Dyraniadau defnydd tir;
- Polisiâu datblygu ar gyfer yr ardal gyfan;
- Polisiâu a chynigion penodol ar gyfer meysydd newid neu amddiffyn allweddol;
- Cyfiawnhad rhesymegol cryno i egluro polisiâu ac arwain y dasg o'u gweithredu; a,
- Mapiau cynigion ar sail ddaearyddol.

## 1.9 Sut mae'r CDLI yn ymwneud â Chynlluniau a Strategaethau eraill?

1.9.1 Wrth baratoi'r CDLI, rhoddir sylw i ganllawiau cenedlaethol a chynlluniau, polisiâu a rhaglenni eraill. Bydd dogfennau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol yn cael eu hadolygu a'u hystyried fel rhan o waith paratoi'r cynllun. Caiff y berthynas a'r rhyngweithio â dogfennau o'r fath eu hadolygu a byddant yn datblygu trwy gydol y broses gwneud cynllun. Rhoddir sylw hefyd i unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol, polisi/canllawiau cenedlaethol, ac unrhyw gynlluniau a strategaethau a allai ddod i'r golwg trwy'r broses adolygu, y bydd goblygiadau'r rhain yn cael eu hystyried.

## 1.10 Y Posibilrwydd o baratoi CDLI ar y cyd

1.10.1 Fel rhan o unrhyw broses adolygu CDLI, roedd ystyried y posibilrwydd o baratoi CDLI ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos yn angenrheidiol a gochelgar. Yn y cyswllt hwn, cyfeirir at bwerau Gweinidogion Cymru i orchymyn i ddau neu fwy o awdurdodau weithredu ar y cyd wrth baratoi/disodli CDLI<sup>6</sup> lle maent yn ystyried i fod yn addas.

<sup>6</sup> Deddf Cynllunio (Cymru) 2015



1.10.2 Fel rhan o'r broses o baratoi Adroddiad Adolygu'r CDLI, mae manteision ac anfanteision paratoi cynllun newydd ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol cyfagos wedi eu hystyried a'u hamlinellu isod.

- Mae Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn anghydnaws yn rhinwedd eu hamserlenni ar gyfer paratoi ac adolygu Cynllun. Mae gan Abertawe gynllun mabwysiedig mewn lle ac nid yw eto wedi cychwyn ar ei adolygiad yn ffurfiol, tra bo Castell-nedd Port Talbot wedi cychwyn ar ei adolygiad yn ddiweddar. Dylid nodi nad yw amseriad eu hadolygiad yn gyson ag adolygiad Sir Gaerfyrddin.
- Mabwysiadodd Cyngor Sir Powys ei Gynllun Datblygu Lleol yn 2018 gyda'r adolygiad wedi cychwyn a'r Cytundeb Cyflawni Drafft wedi'i gytuno yn amodol ar gymeradwyaeth LIC. Nid yw amseriad yr adolygiad hwn yn gyson ag adolygiad CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn, ynghyd â pherthynas trawsffiniol gyfyngedig, yn atal unrhyw drefniad ar y cyd.
- Dim ond dros ran fach o'r sir mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn, ac felly nid yw yn opsiwn dichonol ar gyfer paratoi cynllun ar y cyd. Yn ogystal, byddai'n logistaidd yn mynnu integreiddio polisïau posibl ar draws nifer o ardaloedd Cynghorau eraill.
- Er bod awdurdodau cyfagos eraill yn cyflwyno cyfleoedd o ran amseriad eu prosesau adolygu, maent hefyd yn cyflwyno problemau o ran cydnawsedd. Mae Ceredigion yn debyg i rannau o Sir Gaerfyrddin o ran y cyd-destun gwledig, fodd bynnag mae gwahaniaeth gofodol strategol gan fod Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ranbarth De-orllewin Cymru tra bo Ceredigion yng Nghanolbarth Cymru.
- Mae gan Sir Benfro wahaniaethau nodedig yn economaidd a diwylliannol a fyddai o bosibl yn golygu proses fwy cymhleth a hirwyntog i gyflenwi cynllun ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys gwahaniaethau mewn sbardunau economaidd, cyfran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau, gwahaniaethau o ran rôl twristiaeth a pherthynas Sir Benfro â'r Parc Cenedlaethol. O ganlyniad, tra bo amseru adolygiadau'r CDLI yr un peth yn fras, mae'r rhesymau hyn, ar y cyd â natur gymhleth Cynllun pob awdurdod yn gwneud unrhyw drefniant ar y cyd yn anymarferol.

1.10.3 Byddwn yn cydweithio â'r rhanbarth i gefnogi sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a'r gofynion i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

1.10.4 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r holl Awdurdodau cyfagos ar ddulliau cyffredin lle'n bo'n briodol, fel rhan o drefniadau rhanbarthol ac wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig. Bydd hyn yn cynnwys rhannu a chyd-baratoi agweddau ynghylch tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o weithredu ac adolygu'r CDLlau priodol. Caiff Cyd-ddatganiadau Tir Cyffredin eu paratoi fel y bo angen i ddarparu eglurder ynghylch dulliau a rennir.

## 1.11 Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.11.1 Mae'r gofyniad i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd yn rhan hanfodol o'r broses paratoi cynllun ac yn orfodol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r arfarniad o gynaliadwyedd wedi ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd y CDLI yn ogystal â'r agweddau amgylcheddol a bydd yn parhau i wneud hynny.

1.11.2 Mae Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC yn cael ei chyflawni yn y Deyrnas Unedig trwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Mae'r

rhain yn mynnu bod asesiad amgylcheddol ffurfiol yn cael ei gynnal wrth gynhyrchu rhai cynlluniau a rhaglenni. Yn y cyswllt hwn, bydd cynnal asesiad amgylcheddol strategol yn mynnu bod asesiad ailadroddol o effaith y CDLI ar yr amgylchedd yn cael ei blethu i'r broses gwneud cynllun.

1.11.3 Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael ei gyfuno â'r gofynion i gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol er mwyn creu un broses arfarnu. Bydd y dull integredig hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun o'r cychwyn. Bydd gan ymgynghoreion statudol rôl allweddol ym mhroses yr asesiad amgylcheddol strategol, yn enwedig ymgynghoreion amgylcheddol megis Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal, mae nifer o ofynion ymgynghori statudol mewn perthynas â'r asesiad amgylcheddol strategol.

1.11.4 Yn ymarferol, cynigir y bydd y gofynion uchod yn cael eu bodloni fel a ganlyn:

- Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd - Asesiad Amgylcheddol Strategol;
- Adroddiad cychwynnol/interim yr arfarniad o gynaliadwyedd – asesiad amgylcheddol strategol, yn gyfochr â'r strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir
- Adroddiad yr arfarniad o gynaliadwyedd – asesiad amgylcheddol strategol, yn gyfochr â'r CDLI Adneuo;
- Adroddiad terfynol yr arfarniad o gynaliadwyedd – asesiad amgylcheddol strategol (gan ymgorffori unrhyw newidiadau ar ôl y CDLI Adneuo – e.e. unrhyw newidiadau penodol a/neu newidiadau yn sgil materion a godwyd)

## 1.12 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.12.1 Mae Cyfarwydddeb Ewropeaidd 92/43/EEC yn cael ei chyflawni yn y Deyrnas Unedig trwy Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae'r rheoliadau hyn yn eglurhau cyfrifoldebau'r awdurdod llunio cynlluniau ac yn amlinellu'r fframwaith y dylai ei ddefnyddio i ddogfennu'r broses. Yn y bôn, dylai'r awdurdod llunio cynlluniau greu CDLI na fydd, wrth ei roi ar waith, yn cael effaith sylweddol (unigol a chyfunol) ar adnodd y safleoedd Ewropeaidd. Mae adnodd y safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys: Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), safleoedd Ramsar, a Safleoedd Morol Ewropeaidd.

1.12.2 Er na fydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn rhan o'r arfarniad o gynaliadwyedd / asesiad amgylcheddol strategol, mae wedi cael ei baratoi yn gyfochrog â nhw a bydd hynny'n parhau. Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn mynnu bod asesiad ailadroddol o effaith y CDLI Diwygiedig ar adnodd y safleoedd Ewropeaidd yn cael ei blethu i'r broses gwneud cynlluniau.

Yn ymarferol, cynigir y bydd y gofynion uchod yn cael eu bodloni fel a ganlyn:

1. Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol ochr yn ochr â'r Strategaeth cyn-adneuo a Ffefrir;
2. Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â'r CDLI Adneuo (os na all 1 uchod ddiystyru unrhyw effeithiau)

3. Adroddiad terfynol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (gan ymgorffori unrhyw newidiadau ar ôl y CDLI Adneuo – e.e. unrhyw newidiadau penodol a/neu newidiadau yn sgil materion a godwyd)

### 1.13 Canllawiau Cynllunio Atodol

1.13.1 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i roi rhagor o fanylion am rai polisïau a chynigion penodol a nodir mewn Cynllun Datblygu Lleol. Mae paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn helpu i sicrhau bod rhai polisïau a chynigion penodol yn cael eu deall yn well a'u rhoi ar waith yn fwy effeithiol. Er nad oes gan ganllawiau cynllunio atodol yr un statws â pholisïau cynllun datblygiad mabwysiedig, efallai gall y cynnwys gael ei ystyried fel ystyriaeth faterol wrth bennu ceisiadau cynllunio. Ar hyn o bryd, mae nifer o ddogfennau canllawiau cynllunio atodol mabwysiedig yn ategu'r CDLI mabwysiedig. Gellir gweld y rhain ar wefan yr Awdurdod<sup>7</sup>.

1.13.2 Gellir llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar ffurf:

- Cyfarwyddyd ynghylch pwnc penodol
- Prif Gynlluniau
- Canllawiau dylunio
- Briffiau datblygu ardal

1.13.3 Cynhelir adolygiad o'r canllawiau cynllunio atodol cyfredol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol a, lle bo'n briodol, yn cael eu diweddar'u'n gyfatebol. Bydd graddau unrhyw newidiadau'n dod yn gliriach wrth i'r CDLI symud tuag at gael ei fabwysiadu. Mae'r awdurdod yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw ganllawiau cynllunio atodol cyfredol os nad ydynt yn berthnasol mwyach i gynnwys y CDLI Diwygiedig.

1.13.4 Bydd rhestr o ganllawiau cynllunio atodol arfaethedig ynghyd ag amserlen ar gyfer eu cynhyrchu yn y fersiwn adneuo o'r CDLI Diwygiedig.

---

<sup>7</sup> <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/polisi-cynllunio/canllawiau-cynllunio-atodol-cca/>

## 2. Yr Amserlen

### 2.1 Amserlen - Camau Allweddol

2.1.1 Mae Tabl 2 yn nodi'r camau allweddol arfaethedig a'r amserlen sy'n rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI fel sy'n ofynnol dan ddarpariaethau'r Rheoliadau CDLI<sup>8</sup> a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Nodir amserlen fanwl yn Atodiad 1. Mae'n rhaid nodi bod tri dyddiad gwahanol wedi cael eu cynnwys ar gyfer y Cytundeb Cyflawni, gan gymryd i ystyriaeth y gwahanol fersiynau a luniwyd o ganlyniad i oedi a achoswyd gan Covid-19 a Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol.

**Tabl 2 – Amserlen - Camau Allweddol**

Cam wrth Baratoi'r Cynllun	Rhif y rheoliad	Amserlen
<b>DIFFINIOL</b>		
Cam Allweddol 1 - Cytundeb Cyflawni	5-10	Cytundeb Cyflawni Cychwynnol - Chwefror 2018 – Gorffennaf 2018 Cytundeb Cyflawni cyntaf a adolygwyd – cyhoeddwyd yn dilyn cymeradwyo gan LIC, Tachwedd 2022 Ail Gytundeb Cyflawni a adolygwyd – cyhoeddwyd yn dilyn cymeradwyo gan LIC, Awst 2022
Cam Allweddol 2 – Cyn-adneuo – Paratoi a Chymryd Rhan	14	Chwefror 2018 – Chwefror 2020
Cam Allweddol 3 – Cyn-adneuo – Ymgynghoriad Cyhoeddus	15,16, 16A	Mai 2018 – Mai 2019
Cam Allweddol 4 – CDLI Adneuo Cyntaf Diwygiedig	17-21	Ionawr 2019 – Ionawr 2021
Cam Allweddol 4 – Ail CDLI Adneuo Diwygiedig	17-21	Mawrth 2022 – Mawrth 2024
Newidiadau Penodol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan gynnwys atodiadau	17-21	Chwefror – Mawrth 2024

<sup>8</sup> Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Rhifyn 2) (Awst 2015)

<b>DANGOSOL</b>		
Cam Allweddol 5 - Cyflwyno'r CDLI i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio	22	Mawrth 2024
Cam Allweddol 6 – Archwiliad Annibynnol	23	Mawrth 2024 – Ionawr 2025
Cam Allweddol 7 - Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd	24	Mawrth 2025
Cam Allweddol 8 – Mabwysiadu	25, 25A	Mai / Mehefin 2025
Cam Allweddol 9 – Monitro ac Adolygu	37	Yn parhau ar ôl ei fabwysiadu

2.1.2 Mae'r camau a nodwyd yn Nhabl 2 yn gamau diffiniol, gan fod gan y Cyngor reolaeth uniongyrchol ar yr amserlen. Mae'r rhai sydd wedi'u nodi'n gamau dangosol yn gamau lle gallai ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor effeithio ar y broses. Bydd y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn yn gyfle i geisio sefydlu a oes Arolygydd ar gael ac i ganiatáu cadarnhau digonolrwydd yr amserlen mewn perthynas â'r cyfnod archwilio.

## 2.2 Gwneud Penderfyniadau

### Adrodd

2.2.1 Bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor Sir ar gyfer y camau hynny o broses paratoi'r CDLI lle ystyrir sylwadau a dderbyniwyd yn ystod ymarferion ymgynghori ffurfiol, megis y camau dewisiadau strategol ac adneuol. Yn ogystal, fel arfer bydd yn rhaid ceisio cymeradwyaeth y Cabinet a/neu'r Cyngor Sir ar gyfer y rhannau hynny o broses paratoi'r Cynllun, a fydd yn amodol ar ymgynghoriad ffurfiol â'r cyhoedd.

### Panel Ymgynghorol

2.2.2 Mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun wedi ac yn cael ei gefnogi gan Banel Ymgynghorol sefydledig y CDLI, gydag adroddiadau'n cael eu cyflwyno gerbron y Panel a'r Cabinet a/neu'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

2.2.3 Cynrychiolwyr o blith yr aelodau etholedig ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol yw aelodau'r panel ymgynghorol. Wrth arwain y gwaith o lunio'r CDLI Diwygiedig ar hyd ei daith, bydd y panel yn gofalu bod y Cynllun yn atebol ac yn cael ei ymgymryd mewn ffordd sy'n gyson gyda darpariaethau deddfwriaethol a chynnwys y Cytundeb Cyflawni hwn.

2.2.4 Diben panel ymgynghorol y CDLI yw craffu ar a gwerthuso'r holl fewnbwn drwy'r broses o lunio'r Cynllun. Efallai y bydd gofyn i'r panel gyflafareddu rhwng unrhyw safbwyntiau croes a allai ddod i'r amlwg, gyda'r nod o sicrhau cytundeb ar faterion polisi allweddol a chynigion y cynllun sy'n datblygu.

2.2.5 Bydd rôl a chylch gwaith y panel yn parhau ar ôl mabwysiadu'r CDLI a hynny trwy ystyried allbynnau monitro yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau meddiant ac ymgysylltiad gwleidyddol parhaus. Bydd Aelodau etholiadol y Cyngor Sir yn cael y gwybodaeth ddiweddaraf trwy gyfrwng adroddiadau'r cyngor, seminarau a sesiynau briffio.

### Cydweddu Corfforaethol

2.2.6 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni ei nodau a'i amcanion corfforaethol trwy ei ddogfennau strategol a pholisi. Mae datblygu perthynas gorfforaethol rhwng dogfennau o'r

fath yn ganolog er mwyn eu rhoi ar waith, ac mae'r CDLI Diwygiedig yn hanfodol wrth fynegi dyheadau defnydd tir. Mae datblygu safle'r CDLI fel un o ddogfennau strategol allweddol y Cyngor yn rhoi cyfle i fabwysiadu dull cydgysylltiedig fel rhan o'r gwaith o'i baratoi. Bydd hyn o fudd pellach drwy roi mwy o eglurder a sicrhau nad yw'r gwaith yr ymgwymerir ag ef yn cael ei ailadrodd yn ddiangen yn rhywle arall. Mae'r CDLI Diwygiedig hefyd yn ceisio ymateb i ac adlewyrchu Cynllun Adfer Covid-19 y Cyngor, ynghyd â'r argyfwng Hinsawdd a Natur sydd wedi'i ddatgan.

## Adnoddau

2.2.7 Er mai Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fydd yn gyfrifol am gyflawni'r CDLI, Adain Blaengynllunio Is-adran Lle a Chynaliadwyedd y Cyngor fydd yn gyfrifol am yr agweddau dydd i ddydd o gynhyrchu a pharatoi'r cynllun hyd nes y caiff ei fabwysiadu. Y prif adnodd staff fydd tîm o swyddogion a staff cymorth y mae paratoi'r CDLI yn brif rôl iddynt. Dyma ddadansoddiad o'r tîm sy'n gyfrifol am baratoi'r CDLI a chanran yr amser a dreulir yn cynhyrchu'r cynllun:

### Tîm y CDLI

Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd	(5%)
Rheolwr Polisi Strategol a Chreu Lleoedd	(50%)
Swyddog Polisi Cynllunio a Gweithredu (x4)	(70%)
Swyddog Polisi Cynllunio Cynorthwyol	(70%)
Swyddog Polisi Cynaliadwyedd	(60%)
Swyddog Dylunio Graffig a Chymorth Technegol	(50%)
Swyddog Monitro Data a Gwybodaeth	(60%)
Swyddog Cymorth Polisi (Gweinyddol)	(70%)
Swyddog Rheoli Maetholion	(20%)

2.2.8 Lle bo'n berthnasol, defnyddir arbenigedd ychwanegol a chymorth a mewnbwn arbenigol o feysydd gwasanaeth eraill yn yr Awdurdod.

2.2.9 Cydnabyddir hefyd y gallai fod angen cymorth a gwasanaethau arbenigol ychwanegol. Yn y cyswllt hwn, gall yr Awdurdod ychwanegu at ei adnoddau staff ei hun drwy gomisiynu ymgynghorwyr.

2.2.10 Rhagwelir bod y gofynion cyllidebol ar gyfer paratoi'r CDLI Diwygiedig hyd at ei fabwysiadu yn cyfateb yn fras â'r gofynion cyllidebol a oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu'r CDLI cyfredol mabwysiedig. Bydd y Cyngor yn ymrwymo digon o arian i sicrhau bod y CDLI Diwygiedig yn mynd rhagddo mewn modd sy'n gyson â'r ymrwymadau a amlinellwyd yn y cytundeb cyflawni. Yn ogystal, gallai'r Cyngor ddefnyddio cyllid wrth gefn fel y bo'n briodol i ddiwallu costau parhaus. Gellir cyfrif am y costau gweinyddu cyffredinol a'r costau staff cysylltiedig â llunio'r CDLI trwy strwythurau cyllidebol ar wahân.

### Rheoli Risg

2.2.11 Wrth baratoi'r amserlen arfaethedig, rhoddwyd sylw i'r risgiau posibl adnabyddadwy sy'n gysylltiedig â'r broses o lunio'r Cynllun. Mae'r Awdurdod dal yn ymwybodol o effaith y risgiau ar y gallu i gadw at yr amserlen y cytunwyd arni a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau. O ganlyniad, mae Atodiad 3 yn amlygu'r risgiau posibl hynny y gallai'r Awdurdod eu hwynebu wrth fodloni darpariaethau'r Cytundeb Cyflawni hwn.

2.2.12 Fodd bynnag, dylid nodi bod effeithiau'r pandemig o natur na ellid bod wedi eu rhagweld ac wedi effeithio ar yr amserlen ar gyfer cyflawni'r cynllun a nodwyd yn wreiddiol.

## 3. Cynllun Cynnwys Cymunedau

### 3.1 Y Cefndir

3.1.1 Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau hwn yn nodi pam mae'n bwysig cynnwys y gymuned. Mae'n nodi pwy y dylid ei gynnwys ac yn awgrymu sut i gymryd rhan ym mhroses y CDLI. Mae'n hanfodol er mwyn cyflawni cynllun sydd â pherchenogaeth leol ac mae'n cyfreithloni'r polisiau a fydd yn llywio'r gwaith o ddsbarthu defnyddiau tir a datblygiad yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

3.1.2 Mae Sir Gaerfyrddin yn llawn cyferbyniadau gydag economi a thirwedd amaethyddol ardaloedd gwledig y Sir yn cyferbynnu â'r ardal drefol a diwydiannol yn y de-ddwyrain (gweler Atodiad 4 i weld proffil o'r Sir). Mae'r amrywiaeth yn y boblogaeth (gan gynnwys dosbarthiad, oedran, cyflogaeth a diwylliant) yn golygu bod cynnwys y gymuned ym mhroses y CDLI yn dasg heriol.

### 3.2 Pam cymryd rhan?

3.2.1 Fel dogfen cynllunio defnydd tir, mae buddion ac effeithiau'r CDLI yn cael eu profi'n fwyaf sylweddol yng nghymunedau'r sir. Mae'r Cyngor yn dal yn awyddus i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb gymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig, boed hynny ynghylch y materion sy'n sail i'w gynnwys hyd at ei strategaeth graidd neu o'r polisiau manwl i'w ddyraniadau ar y safle ac ati. Bydd cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y CDLI yn creu Cynllun arall a fydd yn addas i'n cymunedau hyd at 2033.

### 3.3 Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol

3.3.1 Sefydlwyd y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol i helpu i baratoi'r Cynllun. Bydd gan aelodau o'r Fforwm ran bwysig i'w chwarae yng nghymunedau allweddol paratoi'r Cynllun, yn arbennig wrth ystyried y dystiolaeth allweddol ac wrth asesu'r weledigaeth, yr amcanion a'r opsiynau. Hyd yn hyn, mae rôl y Fforwm wedi'i chynnal drwy gyfarfodydd ffurfiol, ymgynghori ar faterion penodol a thrafodaeth gyffredinol. Wrth symud ymlaen bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio dulliau ymgysylltu rhithwir, hybrid, a wyneb yn wyneb gyda'r Fforwm, yn amodol ar unrhyw newidiadau i ganllawiau iechyd cyhoeddus.

3.3.2 Diben y Fforwm yw gweithredu fel bwrdd seinio drwy gydol y broses baratoi a bydd gofyn i'w gynnwys yn rheolaidd.

3.3.3 Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnwys cynrychiolaeth wrth amryw o fudiadau a grwpiau gan gynnwys partneriaethau allweddol, yn ogystal â chynrychiolwyr detoledig o grwpiau a fforymau megis Cyngorau Tref a Chymuned a phartneriaid, gan gynnwys aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â Swyddogion y Cyngor. Mae Aelodau'r Panel yn cynnwys y rheini sydd â diddordeb y bydd y CDLI yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae rhestr ddrafft o wahoddedigion yn Atodiad 7. Efallai y caiff y rhain eu newid wrth i'r gwaith o baratoi'r Cynllun symud yn ei flaen, ond ystyrir ei bod yn hanfodol bod y fforwm yn hydrin o ran ei faint fel bod modd cael trafodaeth adeiladol a gwneud cynnydd.

3.3.4 Mae gofyn i aelodau'r Fforwm fodloni'r disgwyliadau canlynol, yn ychwanegol at y disgwyliadau a nodwyd o dan y rhanddeiliaid cyffredinol:

- Ymrwymo i'r broses – mynd i'r gyfarfodydd/seminarau a chyfrannu at y broses

- Bydd yr aelodau'n cynrychioli buddiannau'r rhiant gorff, a byddai'n fuddiol i'r broses pe bai gwybodaeth am y CDLI yn cael ei dosbarthu i gydweithwyr er mwyn hwyluso ymgynghori estynedig ynghylch y cynllun gan ddefnyddio strwythurau sy'n bodoli'n barod.

3.3.5 Gallai grwpiau thematig penodol ddeillio o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a/neu ddatblygu i ychwanegu at y fforwm a'r gwaith o baratoi'r CDLI, fel y bo'n briodol.

### 3.4 Cynnwys pobl ym mhroses y CDLI

3.4.1 Bydd y CDLI yn nodi polisïau a chynigion o ran datblygu a defnyddio tir yn y sir yn y dyfodol. Felly, dylai unrhyw un sy'n byw neu weithio yn Sir Gaerfyrddin, sy'n ymweld â'r sir, neu sydd â diddordeb yn ei datblygiad yn y dyfodol gymryd rhan ym mhroses y CDLI. Er y cydnabyddir nad yw bob amser yn bosibl neu'n angenrheidiol, nac yn ddichonol cynnwys pawb ym mhob cam o'r broses, mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod y cyfle ar gael i bawb wneud. Mae'r adran hon yn nodi'r grwpiau a allai gael eu cynnwys a sut y gallent gael eu cynnwys.

3.4.2 O achos y newidiadau yr oedd angen eu gwneud yn dilyn y Cynllun Adneuo Diwygiedig Cyntaf yn 2020 (i fynd i'r afael â ffactorau fel Covid-19 a Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol), **ni chafodd** sylwadau a gyflwynwyd i'r cyfnodau ymgynghori Adneuo cynharach yn 2020 eu cario ymlaen. O ganlyniad, roedd disgwyl i unrhyw bartion â diddordeb gyflwyno sylw/sylwadau newydd i'r cyfnod ymgynghori ar yr Ail Gynllun Adneuo Diwygiedig yn 2023 (dyddiadau wedi'u nodi yn Atodiadau 1 a 2).

#### Aelodau Etholedig

- Trwy gydol proses y CDLI, bydd y tîm blaen-gynllunio yn adrodd i'r panel ymgynghori ac, yn ystod camau arwyddocaol, bydd adroddiadau'n cael eu paratoi ar gyfer y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol.
- Bydd sesiynau briffio, seminarau a gweithdai i aelodau'n ceisio mewnbwn ac yn rhoi gwybodaeth am y broses a sut a phryd y bydd angen penderfyniadau a mewnbwn.
- Mae'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am gynllunio strategol a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn rhan o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.

#### Cyrff Ymgynghori Penodol

- Mae rhestr o gyrff ymgynghori penodol y mae gofyn i'r cyngor ymgynghori â nhw i'w gweld yn Atodiad 5.
- Caiff dogfennau neu ddolenni electronig i'r dogfennau hyn eu hanfon at y cyrff hyn yn ystod y camau dynodedig (gweler Atodiad 2), a bydd disgwyl cael ymateb o fewn amserlen resymol.

#### Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol

- Sefydliadau sydd â chylch gwaith yn ymwneud â materion amgylcheddol, cymdeithasol a/neu economaidd ac sy'n gallu rhoi cyngor am faterion arbenigol.
- Bydd hyn yn gweithredu ochr yn ochr â phroses y CDLI wrth sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd â'r meini prawf cynaliadwyedd.

#### Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgynghoreion Eraill

- Mae rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol ac ymgynghoreion eraill y mae gofyn i'r Cyngor ymgynghori â nhw, a'r rheini y mae'r Cyngor yn credu y dylent gael eu cynnwys fel ymgynghoreion. Gellir dod o hyd i'r rhain yn Atodiad 5.



- Bydd y cyrff hyn yn cael eu hysbysu drwy lythyr neu e-bost yn ystod y camau a nodwyd.

### Swyddogion Proffesiynol

- Bydd cynrychiolaeth fewnol gan Swyddogion Rheoli Datblygu, Ecolegwyr y Sir ac elfennau eraill o'r gwasanaeth cynllunio a meysydd gwasanaethau eraill, yn ogystal â sefydliadau partner allanol lle bo'n briodol, yn bwydo i mewn trwy'r grwpiau thematig (a fforymau eraill) sy'n ymdrin â'r rhychwant eang o bynciau yn y CDLI Diwygiedig.
- Mae cynrychiolaeth fewnol o blith gwasanaethau eraill y Cyngor yn hanfodol i sicrhau bod y cynllun yn gyson â strategaethau a chynlluniau adrannau eraill.

### Ieuentid

- Yn draddodiadol, nid yw pobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y broses cynllunio datblygiadau. Defnyddir Cyngor Ieuentid Sir Gaerfyrddin a dulliau eraill o ymgysylltu â phobl ifanc, megis Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin, Cyngor y Gwasanaethau Ieuentid Gwirfoddol ac Asiantaeth Genedlaethol Clybiau Ieuentid er mwyn ceisio barn yr ieuentid fel rhan o'r broses.

### Datblygwyr ac asiantau

- Gall datblygwyr ac asiantau ofyn am gael eu hychwanegu at y rhestr bostio uniongyrchol (gweler isod). Rhaid iddynt, fel grŵp y cyhoedd, dderbyn y cyfrifoldeb am sicrhau bod unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r camau statudol yn cael eu cyflwyno o fewn yr amserlen gywir a chyda'r wybodaeth y gofynnir amdani.
- Roedd datblygwyr, asiantau ac unrhyw bersonau eraill yn gallu cyflwyno unrhyw safleoedd y maent yn dymuno iddynt gael eu cyflwyno i'w hystyried yn ystod y camau anstatudol (cam y "Safleoedd Ymgeisio"). Mae manylion y safleoedd hyn ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor.
- Cafodd safleoedd a gyflwynir eu hasesu yn erbyn y Fethodoleg Asesu Safleoedd.

### Y cyhoedd (grŵp postio uniongyrchol)

- Mae'r grŵp hwn yn cynnwys unrhyw un sydd â diddordeb yn nyfodol Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys unigolion, busnesau, sefydliadau a grwpiau.
- Gallai aelodau'r cyhoedd, grwpiau neu sefydliadau gael eu cynnwys, ar gais, ar y rhestr bostio uniongyrchol i gael eu hysbysu am gynnydd y cynllun a sut y gallent gael eu cynnwys. Bydd hysbysiadau ar ffurf e-bost neu, dan amgylchiadau eithriadol, trwy'r gwasanaeth post. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y cyhoedd yw sicrhau bod unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r camau statudol yn cael eu cyflwyno o fewn y terfyn amser cywir a chyda'r wybodaeth briodol y gofynnwyd amdani. Yn ystod y cyfnodau ymgynghori ffurfiol, anogir cyflwyno sylwadau'n electronig drwy'r porth ymgynghori. Pan ddefnyddir gwasanaeth post, ni fydd y cyngor yn gyfrifol am unrhyw eitem na chaiff ei dosbarthu. Yn yr un modd, lle nad yw e-bost neu rywbeth arall electronig wedi'i anfon yn iawn, ni fydd y Cyngor yn gyfrifol.
- Bydd yr holl bobl hynny sy'n cyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnodau ymgynghori statudol yn cael eu hychwanegu'n awtomatig at y rhestr bostio heblaw eu bod yn nodi'n wahanol.
- I gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â'r Tîm Blaen-gynllunio drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:
  - \* Trwy anfon e-bost i: [blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk](mailto:blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk)
  - \* Trwy'r post: Yr Adain Blaen-gynllunio, y Gwasanaethau Cynllunio, Adran yr Amgylchedd, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LQ

★ Trwy ffonio: 01267 228818

- Bydd pob person cofrestredig yn cael ei hysbysu drwy e-bost (oni nodir fel arall trwy absenoldeb cyfeiriad e-bost) yn ystod camau dynodedig (gweler Atodiad 2).

### **Datblygwyr, asiantau, ac eraill sy'n gwneud cynnig am safleoedd**

3.4.3 Mae nifer o gamau ym mhroses paratoi'r CDLI Diwygiedig lle bydd pobl wedi cael cyfle i gynnig safleoedd i'w cynnwys yn y CDLI.

- Cam safleoedd ymgeisio - cyfle cynnar fel rhan o gam cyn-adneuo'r CDLI i gyflwyno safle i'w ystyried.
- Os bu newid materol mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar safle a wrthodwyd ynghynt, neu os cyflwynir safle hollol newydd, cyfrifoldeb yr un sy'n cynnig yw profi effeithiau ei safle gan ddefnyddio fframwaith arfarniad o gynaliadwyedd yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn a fyddai'n ofynnol ar gyfer arfarniad o gynaliadwyedd y byddai disgwyl i'r cynigydd ei ddilyn. Nid yw'r awdurdod, fodd bynnag, yn rhoi unrhyw sicrwydd y byddai'r fath newid mewn amgylchiadau'n sicrhau neu'n ennyn newid a fyddai'n debygol o weld y safle'n cael ei gynnwys yn y Cynllun.
- Ni fydd proses fetio i sicrhau bod cyflwyniadau'n foddhaol o ran yr arfarniad o gynaliadwyedd: caiff unrhyw broses fetio ei chynnal fel rhan o'r archwiliad gerbron yr Arolygydd. Os na fu safle newydd neu amgen yn destun unrhyw arfarniad o gynaliadwyedd, mae'n annhebygol y bydd yr Arolygydd mewn sefyllfa i argymhell ei gynnwys yn y CDLI.
- Bu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried yr holl sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cam ymgynghori â'r cyhoedd cyn adneuo, yn unol â Rheoliad 16 (2) y CDLI, cyn penderfynu ar gynnwys y CDLI Adneuo Diwygiedig. Nid yw sylwadau a wneir yn ystod y cam cyn-adneuo hwn yn gyfystyr â sylwadau i'w hystyried yn yr archwiliad annibynnol.
- Cam y Cynllun Adneuo - mae cyfrifoldeb ar y rhai sy'n hyrwyddo newidiadau i'r Cynllun i ddangos bod y gweithdrefnau priodol wedi'u dilyn ac i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i ddangos y byddai'r Cynllun yn gadarn pe bai'r safle'n cael ei gynnwys. Byddai hyn yn cynnwys dangos bod y safle'n cyd-fynd â'r arfarniad o gynaliadwyedd.
- Mae'r holl safleoedd a gyflwynir yn cael eu hystyried yn unol â darpariaethau'r fethodoleg asesu safleoedd.

### **Grwpiau nas clywir yn aml**

3.4.4 Mae hyn yn cynnwys grwpiau nad ydynt yn draddodiadol wedi cymryd rhan i raddau helaeth o gwbl yn y broses gynllunio.

- Caiff grwpiau o'r fath eu hannog o hyd i gymryd rhan drwy fforymau sy'n bodoli'n barod lle bo hynny'n bosibl. Gwnaed ymdrech drwy gydol y broses i glustnodi a chynnwys y grwpiau hyn.
- Ymgysylltwyd â'r grwpiau hyn ar wahanol gamau o'r broses o lunio'r Cynllun a bydd hyn yn parhau i gael ei wneud. Mae grwpiau unigol wedi cael eu nodi dan 'gyrff ymgynghori cyffredinol' a 'gyrff ymgynghori eraill' (gweler Atodiad 5).

3.4.5 Bydd y Tîm Blaen-gynllunio hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr mewn meysydd gwasanaeth eraill i fwyafu cyfleoedd ymgynghori, gan gynnwys cynyddu mynediad at gymdeithasau a fforymau.

3.4.6 Pan gyflwynir deisebau, dylai un person enwebedig gael ei nodi fel pwynt cyswllt i gael ei gynnwys ym mhroses y CDLI.

### **Cynghorau Tref a Chymuned**

3.4.7 Wrth baratoi'r CDLI diwygiedig, mae'r Awdurdod yn cydnabod rôl bwysig Cynghorau Tref a Chymuned o fewn eu cymunedau priodol, gan gydnabod eu gallu i drosglwyddo gwybodaeth ac annog ymgysylltu. I adlewyrchu'r rôl a'r statws hwn fel ymgynghoreion penodol (Atodiad 5), bydd y Cyngor yn ymgynghori â nhw ar adegau priodol (gan gynnwys cynrychiolaeth yn y fforwm rhanddeiliaid allweddol).

3.4.8 Gall Cynghorau Tref a Chymuned a Chynghorwyr unigol ddarparu cyswllt gwerthfawr a modd o gyfathrebu â'u cymunedau. Mae eu gallu i godi ymwybyddiaeth yn glir yn ogystal â'u gallu i roi adborth a chyfleu safbwyntiau a sylwadau yn ôl i'r broses gwneud Cynllun.

3.4.9 Mae 72 o Gynghorau Tref a Chymuned (135 sedd) o wahanol feintiau a chyllidebau yn y sir. Ystyrir bod mynychu cyfarfodydd pob un o'r Cynghorau hyn ar sail unigol yn anymarferol oherwydd materion adnoddol. Lle bo'n ymarferol, fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn nodi dulliau ymgysylltu priodol eraill ar gyfer y sector. Mae cyfleoedd hefyd i ddefnyddio Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned sefydledig yr Awdurdod.

3.4.10 Lle bo'n briodol, bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio defnyddio'r gwaith cyswllt parhaus â'r Cynghorau Tref a Chymuned hynny yn y sir sy'n fwy o faint mewn perthynas â'r dyletswyddau sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae cyngor cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau hyn pan fu ei incwm neu wariant gros o leiaf £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol flaenorol. Mae cyfleoedd, felly, i ddefnyddio'r plattform presennol hwn i ymgysylltu â'r Cynghorau hyn sy'n fwy o faint ynghylch y CDLI.

3.4.11 Bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'r cyfraniad posibl y gall Cynlluniau Bro (lle bôn yn cael eu llunio) ei wneud. Yn y cyswllt hwn, bydd yr Awdurdod yn cadw golwg am unrhyw ganllawiau pellach a ryddheir gan Lywodraeth Cymru.

3.4.12 Mae sawl sefydliad allanol hefyd a allai chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â'r sector – gan gynnwys Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru. Mewn perthynas â'r cyntaf, cyfeirir at strwythur sefydledig y Pwyllgor Ardal, tra bo Cymorth Cynllunio Cymru yn ddarparwyr hyfforddiant sefydledig ar gyfer y sector ac wedi helpu i gynnal hyfforddiant fel rhan o broses y CDLI.

### **3.5 Disgwyliadau Rhanddeiliaid**

3.5.1 Mae'n bwysig bod yr holl rhanddeiliaid a phartïon sydd â diddordeb ym mhroses y CDLI yn gwneud pob ymdrech i ddiwallu'r disgwyliadau canlynol:

- (a) Ymateb i ohebiaeth o fewn amserlen briodol – atebir pob gohebiaeth a sylw a gyflwynir o fewn cyfnod rhesymol o amser, a disgwyllir i rhanddeiliaid ymateb i unrhyw ohebiaeth o fewn 21 diwrnod.
- (b) Dim ond materion dilys y bydd rhanddeiliaid yn eu codi (materion yn ymwneud â'r CDLI yn unig).
- (c) Dylai'r sawl sy'n cynnig safleoedd nodi unrhyw bylchau mewn tystiolaeth neu bolisïau yn ystod y cyfnodau ymgynghori dynodedig. Nid yw'r Cyngor yn gorfod

ystyried neu hybu unrhyw safleoedd (neu sylwadau eraill) i'w harolygu sydd wedi cael eu cyflwyno y tu allan i'r cyfnodau ymgynghori diffiniedig.

- (d) Dylai'r sawl sy'n ymateb ymrwmo i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani fel y bo angen i alluogi asesiad priodol o unrhyw gyflwyniadau neu sylwadau.
- (e) Rhaid dilyn y canllawiau a'r gweithdrefnau bob amser.
- (f) Dylid rhannu a darparu gwybodaeth os gofynnir amdani.
- (g) Dylai rhanddeiliaid dderbyn bod adroddiad yr arolygydd yn rhwymo, ac nad oes modd apelio yn erbyn ei benderfyniadau.
- (h) Ymrwymiad gan bawb i feithrin consensws.

3.5.2 Gall oedi ddigwydd os na fodlonir y disgwyliadau hyn a gallai olygu na fyddai'r cynllun yn cydymffurfio â'r egwyddorion cadernid.

### 3.6 Sylwadau hwyr

3.6.1 Bydd y Cyngor dim ond yn ystyried sylwadau a gyflwynir yn unol â chyfnod cyhoeddedig yr ymgynghoriad. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir y tu hwnt i'r dyddiadau hyn yn cael eu hystyried yn sylwadau na wnaed yn briodol, ac nid oes yn rhaid i'r Cyngor eu hystyried. Dim ond pan fo'r Cyngor yn fodlon y gwnaed ymdrech gwirioneddol, didwyll i gyflwyno sylwadau o fewn yr amserlen a roddir y bydd sylwadau hwyr yn cael eu cofrestru fel sylwadau a wnaed yn briodol. Bydd angen tystiolaeth o ddyddiadau danfon, postio ac ati i ategu'r fath honiadau. Mae disgwyl i'r fath amgylchiadau fod yn eithriadol ac anogir pob ymatebwr i gyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnodau cyhoeddedig.

3.6.2 Er mwyn iddynt gael eu cofrestru fel sylwadau a wnaed yn briodol, rhaid i'r sawl sy'n rhoi sylwadau gyflenwi'r wybodaeth angenrheidiol a nodi'r materion y maent yn ymwneud â nhw. Yn y cam adneuo, dylai sylwadau hefyd amlinellu'r newidiadau a geisir, nodi ar ba sail y cyflwynir y sylwadau, a, lle bo'n bosibl, nodi'r prawf/proffion cadernid perthnasol.

3.6.3 Dim ond y sylwadau hynny a wnaed yn briodol yn ystod y Cam Adneuo fydd yn cael eu cyflwyno gerbron yr Arolygydd i'w hystyried yn ystod y cyfnod archwilio. Dylid nodi na fydd sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y camau Cyn-adneuo yn cael eu cyflwyno i'r Arolygydd i'w hystyried yn yr archwiliad.

### 3.7 Dulliau Cynnwys, Cyfranogi ac Ymgynghori

3.7.1 Cafodd amryw o ddulliau eu nodi o'r blaen i hwyluso cynnwys cymunedau drwy gydol proses y cynllun. Yn dilyn effaith Covid-19 a'r angen i ddilyn canllawiau diweddaraf y Llywodraeth, caiff ystyriaeth ei rhoi i ddefnyddio dulliau ymgysylltu rhithwir, hybrid a wyneb yn wyneb gyda'r Fforwm, yn amodol ar unrhyw newidiadau mewn canllawiau iechyd y cyhoedd. Bydd y dulliau canlynol yn cael eu defnyddio:

- Dogfennau a gyhoeddwyd a diweddiadau rheolaidd a ddarparwyd ar wefan y Cyngor
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys diweddiadau Twitter ac eitemau newyddion Facebook ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol y cyngor
- Cylchlythyrau, dyddiaduron ar-lein a blogiau lle bônt ar gael
- Postio uniongyrchol (drwy e-bost os yw'n bosibl, ond trwy lythyr i'r sawl sy'n ceisio'r math hwn o gyfathrebu)
- Arddangosfeydd cyhoeddus
- Seminarau / Gweithdai

- Dogfennau a fydd ar gael mewn canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid a llyfrgelloedd cyhoeddus
- Datganiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus
- Cyfarfodydd

### 3.8 Ymgysylltu Dwyieithog a'r Iaith Gymraeg

3.8.1 Bydd y gwaith o baratoi'r CDLI yn cael ei gynnal yn unol â Safonau'r Gymraeg y Cyngor, a bydd ymgysylltu dwyieithog yn hanfodol wrth sicrhau cyfle cyfartal i ymgysylltu â'r gwaith o baratoi'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, a bydd yn gwneud ei orau i alluogi'r holl ymgynghoriadau i gael eu cynnal yn y naill iaith neu'r llall. Bydd pob ffurflen, dogfen a gohebiaeth yn ddwyieithog, a chynigir y cyfle i gael cyfarfodydd dwyieithog, gan roi'r cyfle i bobl ymgysylltu yn eu hiaith ddewisol.

### 3.9 Adeiladu Consensws

3.9.1 Gallai ymgynghori â phobl a'u cynnwys mewn modd gwell helpu i leihau gwrthdaro wrth wneud penderfyniadau. Nod y technegau ymgynghori a gynigir yn y Cynllun hwn yw lleihau gwrthdaro a cheisio consensws lle bo'n bosibl, trwy ddefnyddio strwythurau ymgysylltu a chynnwys rhagweithiol mewn perthynas â rhanddeiliaid, cymunedau a phartion sydd â diddordeb. Mae'n bwysig y ceisir cytuno ar strategaeth gyffredinol y CDLI, yn enwedig yng nghanau cynnar y broses.

3.9.2 Pan nad oes modd cyflawni consensws, mae'n hollbwysig fod y ffynonellau gwybodaeth sy'n arwain at benderfyniad yn amlwg ac yn cael eu parchu gan bob parti. Yn yr achosion hynny lle na ellir sicrhau consensws, rhoddir sylw i faterion perthnasol megis polisi cenedlaethol wrth bennu unrhyw ganlyniadau.

### 3.10 Argaeledd Dogfennau / Adborth

3.10.1 Bydd pob dogfen a gynhyrchir yn ystod y broses o baratoi'r CDLI yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor a hefyd ar gael yn y lleoliadau canlynol (gallai'r lleoliadau newid mewn ymateb i ganllawiau diweddaraf y Llywodraeth):

- Canolfannau Gwasanaethau Hwb Gwasanaeth Cwsmeriaid Caerfyrddin  
Cwsmeriaid:  
Hwb Gwasanaeth Cwsmeriaid Llanelli  
Hwb Gwasanaeth Cwsmeriaid Rhydaman
- Llyfrgelloedd cyhoeddus (yn cynnwys llyfrgelloedd teithiol) yn Sir Gaerfyrddin (a restrir yn Atodiad 6) sy'n hygyrch ac ar agor

3.10.2 Lle bo'n briodol/ofynnol, bydd copïau o ddogfennau'n cael eu hanfon at gyrff ymgynghori penodol. Fodd bynnag, anogir defnyddio adnodd ar-lein y Cyngor i gyrchu dogfennau a deunyddiau mewn perthynas â pharatoi'r CDLI Diwygiedig.

### 3.11 Dulliau Adborth

3.11.1 Defnyddir gwefan y Cyngor a chyfryngau eraill y Cyngor i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf a newyddion am hynt y CDLI Diwygiedig.

3.11.2 Yn ystod pob cam arwyddocaol, bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu hadrodd i'r Panel Ymgynghorol, y Cyngor Llawn a/neu Gabinet y Cyngor.

3.11.3 Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn ystod y camau ymgynghori statudol yn cael eu cydnabod a'u cofrestru ar gronfa ddata, eu rhoi ar restr bostio (oni bai y gofynnir fel arall) a rhoddir gwybod i'r sawl a'u hanfonodd am y camau nesaf yn y broses.

### 3.12 Monitro ac Adolygu

3.12.1 Bydd y Cyngor yn monitro ac adolygu effeithiolrwydd y cytundeb cyflawni trwy gydol y broses o baratoi'r CDLI Diwygiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod yr amcanion a nodwyd yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau'n cael eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig.

3.12.2 Dyma achosion eraill lle byddai angen adolygu'r cytundeb cyflawni:

- Os oes newidiadau sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor;
- Os oes gofyn gwneud newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau;
- Os yw proses y CDLI yn mynd ar ei hôl hi'n sylweddol o ran yr amserlen, h.y. tri mis neu fwy;
- Pe bai deddfwriaeth, rheoliadau neu ganllawiau newydd gan y DU neu Lywodraeth Cymru yn golygu bod yn rhaid ymgymryd â gweithdrefnau neu dasgau newydd; neu,
- Os oes unrhyw newidiadau o ran amgylchiadau sy'n effeithio'n sylweddol ar gyflawni'r cynllun.

3.12.3 Mae'r Rheoliadau CDLI yn datgan y dylai'r amserlen gael ei hadolygu, ar ôl adneuo, mewn ymgynghoriad â'r ymgynghoreion perthnasol, a chael ei hailgyflwyno i Lywodraeth Cymru wrth i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb lefel gwasanaeth gydag PCAC. Dylid gwneud hyn o fewn tri mis wedi i'r cyfnod adneuo ffurfiol ddod i ben.

3.12.4 Ar ôl mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig, caiff Adroddiad Monitro Blyneddol ei lunio, ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn unol â rheoliadau. Bydd yr adroddiad monitro blyneddol yn sefydlu pa mor effeithiol mae polisiâu a chynigion y cynllun yn perfformio ac yn cael eu rhoi ar waith. Bydd yn asesu a yw'r strategaeth sylfaenol yn dal i fod yn gadarn ac a oes angen newid unrhyw bolisiau i adlewyrchu newidiadau cyd-destunol, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Bydd yr adroddiad monitro blyneddol hefyd yn pennu gofynion o ran tir gan gynnwys cyflawni'n unol â'r trywydd a nodir yn y Cynllun a'r nifer net o anheddau ychwanegol fforddiadwy ac anheddau ar gyfer y farchnad gyffredinol a godwyd yn ardal yr Awdurdod, ac yn adrodd ar ddangosyddion eraill y CDLI.

3.12.5 Bydd yr Awdurdod yn dechrau adolygiad llawn o'r CDLI Diwygiedig o leiaf unwaith bob pedair blynedd yn dilyn mabwysiadu. Caiff amserlen ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn chwe mis i benderfyniad yr Awdurdod i adolygu'r Cynllun. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ailystyried yr arfarniad o gynaliadwyedd a chadernid y Cynllun. Megis gyda'r adroddiad monitro blyneddol, bydd yr adolygiad llawn hefyd yn dangos a oes angen newidiadau i'r Cynllun. Pan fo angen newid polisi neu pan fo angen polisiâu ychwanegol, yr un fydd y broses i adolygu'r cynllun â'r broses i'w baratoi.

**Rhestr Termiau**

Cynllun Mabwysiedig	Dyma gam olaf y broses o baratoi CDLI - lle daw'r CDLI yn Gynllun Datblygu statudol, at ddibenion y Ddeddf.
Mabwysiadu	Cadarnhad terfynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) o'r cynllun datblygu fel ei bolisi cynllunio defnydd tir.
Adroddiad Monitro Blynyddol	Bydd hyn yn asesu i ba raddau y gweithredir polisïau yn y cynllun datblygu lleol yn llwyddiannus (Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.
Llinell Sylfaen/Llinell Sylfaen Cyn Newid	Disgrifiad o gyflwr presennol ardal y dylid mesur newid yn ei erbyn.
Safle Ymgeisio	Safleoedd Ymgeisio yw'r rheiny a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr ACLI fel dyraniadau mewn CDLI sy'n datblygu.
Cofrestr Safleoedd Ymgeisio	Cofrestr o safleoedd ymgeisio a baratowyd yn dilyn galwad gan yr ACLI am safleoedd ymgeisio.
Y Gymuned	Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac sydd felly'n ffurfio cymunedau o fuddiant.
Cynllun Cynnwys Cymunedau	Mae'n nodi cynllun a pholisïau prosiect yr ACLI ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol. Cyflwynir y Cynllun Cynnwys Cymunedau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni i gytuno arno.
Adeiladu Consensws	Proses o gynnal deialog gynnar gyda grwpiau buddiant a dargedir er mwyn deall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau gweithredu.
Ymgynghoriad	Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu gyfres o bynciau, neu ddogfen ddrafft.
Dangosydd Cyd-destunol	Dangosydd a ddefnyddir i fonitro newidiadau yn y cyd-destun y caiff y cynllun ei weithredu neu ei baratoi ynddo.
Cytundeb Cyflawni	Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr ACLI ar gyfer paratoi'r CDLI ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru er mwyn cytuno arni.
Dogfennau Adneuo	Mae'r rhain yn cynnwys y CDLI Adneuo, yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd, yr adroddiad ymgynghori cychwynnol, y gofrestr safleoedd ymgeisio, yr Adroddiad Adolygu (os yn briodol), ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol.
Terfynau Datblygu	Llinell a dynnir er mwyn diffinio ardal anheddiad lle mae datblygu'n dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar roi ystyriaeth fanwl i'r amgylchedd, amwynder, mynediad, darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ac ystyriaethau eraill. Ystyrir ardaloedd y tu allan i'r terfynau fel cefn gwlad agored.
Polisïau rheoli datblygu	Cyfres o bolisïau yn seiliedig ar feini prawf a fydd yn sicrhau bod pob datblygiad yn yr ardal yn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth.
Ymgysylltu	Proses sy'n annog ystyriaeth sylweddol mewn cymuned. Ymgais ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl/rhan o'r gymuned.
Sylfaen Dystiolaeth	Dehongli gwybodaeth sylfaenol neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi'r cynllun

Newidiadau Penodol	Newidiadau a gynigir i'r CDLI adneuo cyn eu cyflwyno sy'n gyfyngedig iawn o ran nifer, sy'n adlewyrchu darnau allweddol o dystiolaeth, ond nad ydynt yn mynd at wraidd y cynllun.
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040	Gwneir darpariaeth dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar gyfer paratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hwn. Wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru, mae <i>Cymru'r Dyfodol</i> yn pennu fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru ac yn disodli hen Gynllun Gofodol Cymru.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Y broses o fynd ati'n briodol i sgrinio ac asesu'r opsiynau sy'n ofynnol o dan Ran 6 Pennod 8 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd) - proses ailadroddol gydnabyddedig sy'n helpu i bennu'r effeithiau tebygol ar gynllun neu raglen a (lle bo'n briodol) asesu effeithiau andwyol ar uniondeb safle Ewropeaidd. Mae'n ofynnol i'r asesiad gael ei gynnal gan awdurdod cymwys gyda golwg ar gynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol (ar eu pennau eu hunain ac yn gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar "safle Ewropeaidd" (gweler paragraff 5.1.2 o TAN 5), neu fel mater polisi, mae "safle Ewropeaidd" neu safle Ramsar arfaethedig, o dan ddarpariaethau Erthygl 6 (3) o Gyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd 92/43/ECC (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), rheoliadau 61 a 102 o'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'u diwygiwyd) 2010, a rheoliad 25 o Reoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol &c) 2007.
Dangosydd	Mesur o amrywiadau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur cyflawni amcanion.
Y Strategaeth Gymunedol Integredig	Mae'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Rhan 2: Adranau 37-46) gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd eu hardaloedd. Cyfeirir ati hefyd fel "Cynllun Integredig Sengl".
Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cynllun defnydd tir sy'n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisiâu ar draws yr ardal ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a pholisiâu a chynigion ar gyfer ardaloedd allweddol o newid a gwarchodaeth lle bo angen. Rhaid dangos polisiâu a dyraniadau yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun.
Yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI)	Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi CDLI.
Cynllun Llesiant Lleol	O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol; bwriedir y bydd pob un yn paratoi Cynllun Llesiant i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl erbyn Ebrill (adran 39).



Cynllun Morol	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a baratowyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.
Lliniaru	Mesurau lliniaru i osgoi, lleihau neu wrthbwysio effeithiau andwyol arwyddocaol.
Amcan/Amcan Strategol	Datganiad o'r hyn a fwriedir, gan nodi'r cyfeiriad a ddymunir ar gyfer newid mewn tueddiadau.
Partneriaid	Adrannau lleol/awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill a chyrrff statudol lle bydd y CDLI yn helpu i gyflawni rhai o amcanion eu strategaethau. Efallai y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu at lunio rhannau perthnasol o'r CDLI.
Rhwymedigaeth Gynllunio	Cytundeb cyfreithiol rhwng ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol i sicrhau bod datblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd benodol. Cyfeirir ati hefyd fel Cytundeb Adran 106.
Polisi Cynllunio Cymru	Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pennu polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Darperir cyngor gweithdrefnol drwy gylchlythyrau a llythyrau egluro polisi.
Dogfennau Cyn-adneuo (CDLI)	Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth, yr opsiynau strategol, y strategaeth a ffeirir, polisiâu allweddol, yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd, y gofrestr o safleoedd ymgeisio, Adroddiad Adolygu (os yn briodol).
Cam Cyn-adneuo	Y camau cyfranogi ac ymgynghori cyn-adneuo; mae'r Llawlyfr yn cyfeirio at y cam Opsiynau Strategol a'r Strategaeth a Ffeirir sy'n ymwneud â gweithdrefn y cynllun llawn; mae llai o ofynion yn ymwneud â gweithdrefn adolygu'r cynllun byr.
RAMSAR	Safle gwlyptir sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur. Mae'r dynodiad yn cael ei alluogi gan Gonfensiwn Ramsar 1971 lle mae Llywodraethau Ewropeaidd sy'n cymryd rhan yn ymrwymo i ddiogelu ardaloedd o'r fath.
Adroddiad Adolygu	Yr adroddiad statudol gofynnol o dan Adran 69 o Ddeddf 2004 a/neu Reoliad 41; i ddod i gasgliad ynghylch y weithdrefn adolygu CDLI sydd i'w dilyn yn seiliedig ar asesiad clir o'r hyn a ystyriwyd a'r hyn sydd angen ei newid a pham, yn seiliedig ar dystiolaeth.
Gweithdrefn adolygu'r cynllun byr	Gall fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau ymgymryd â gweithdrefn adolygu'r cynllun llawn.
Cynllun Integredig Sengl	Cyflawni dyletswyddau statudol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Cydamcanu – Cydymdrechu", LIC 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol; a gaiff eu paratoi gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Gweler "Cynlluniau Llesiant Lleol" sydd i ddisodli Cynlluniau Integredig Sengl.
Dyraniadau Safle-benodol	Dyraniadau safleoedd (cynigion) ar gyfer defnydd penodol neu ddefnydd cymysg neu ddatblygiad. Bydd polisiâu yn nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol gyda'r dyraniadau a ddangosir ar fap cynigion y CDLI.
Cadernid	Er mwyn i Gynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu, rhaid i'r Arolygydd sy'n ei archwilio benderfynu ei fod yn 'gadarn' (Adran 64 o Ddeddf 2004). Nodir profion a gwiriadau cadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru.
Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	Safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth rhyngwladol a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Gyfarwyddeb

	Ewropeaidd ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt. Yn ogystal, ceir safleoedd ymgeisio ACA a ddylai, fel mater o bolisi'r Llywodraeth, gael eu hystyried fel ACA llawn wrth archwilio effeithiau defnydd tir.
Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer Adar Gwyllt o dan y Gymuned Ewropeaidd. Mae Cyfarwyddeb y Cyngor ar Warchod Adar Gwyllt (79/4C9/EEC) yn diogelu a rheoli pob rhywogaeth o adar gwyllt sy'n digwydd yn naturiol.
Rhanddeiliaid	Buddiannau y mae'r CDLI (a/neu'r Aseiad Amgylcheddol Strategol) yn effeithio'n uniongyrchol arnynt - trwy gyfrff cynrychioliadol yn gyffredinol.
Datganiad Tir Cyffredin	Diben Datganiad Tir Cyffredin yw sefydlu'r prif feysydd lle ceir cytundeb rhwng dau neu ragor o bartion ar fater penodol.
Cynllun Datblygu Strategol	Gwneir darpariaeth o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol. Bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac yn ymateb ar lefel ranbarthol i faterion strategol.
Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS)	Term a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio aseiad amgylcheddol fel y caiff ei gymhwyso i gynlluniau a rhaglenni. Mae proses AAS yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chaiff ei diffinio ar lefel Ewropeaidd - Cyfarwyddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Aseidiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau AAS) yn gofyn am "aseiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rheiny ym maes cynllunio a defnydd tir".
Canllawiau Cynllunio Atodol	Maent yn ffurfio dogfen/gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisiau mewn CDLI. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r Cynllun ac â pholisi cynllunio cenedlaethol. Gellir eu datblygu i ystyried agweddau unigol neu thematig ar y Cynllun a dyrannu safleoedd gan gynnwys prif gynlluniau.
Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Offeryn ar gyfer arfarnu polisiau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae'n ofynnol i bob ACLI, yn ôl Adran 62 (6) o Ddeddf 2004, ymgymryd ag Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r CDLI. Mae'r math hwn o Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion y Rheoliadau AAS yn llawn.
Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd	Dogfen y mae'n ofynnol ei chynhyrchu fel rhan o'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar gynaliadwyedd wrth weithredu'r CDLI, sydd hefyd yn bodloni'r gofyniad am Adroddiad Amgylcheddol o dan y Rheoliadau AAS. Mae Adran 62 (6) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLI baratoi adroddiad o ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r CDLI. Cynhyrchir yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd yn gyntaf yn ystod y cam Strategaeth a Ffeirir (yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Interim), ehangir arno yn y cam CDLI Adneuo a'i gwblhau ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu.

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)	Dogfen yn seiliedig ar bynciau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ategu Polisi Cynllunio Cymru.
---------------------------------	--

Atodiad 1: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin – Amserlen																																																																																																																																			
	Cyfnod Cyfyngiadau Covid-19																																																																																																																																		
	2020												2021												2022												2023												2024												2025																																																																						
	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I																																																
<b>Cyfnod Allweddol 4: Ymgynghoriad Cynllun Adneuo (Rhe 17-21)</b>																																																																																																																																			
Paratoi'r Ail Gynllun Adneuo Drafft, Adroddiad HRA ac Adroddiad SA (SEA)																																																																																																																																			
Adrodd yr Ail CDLI Adneuo drafft, SA (SEA) a HRA																																																																																																																																			
Cyhoeddi'r Ail CDLI Adneuo, SA (SEA) a HRA i ymgynghori																																																																																																																																			
Asesu ac ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd ar yr Ail CDLI Adnau, SA (SEA) a HRA																																																																																																																																			
Newidiadau Ffocws ar ISA a HRA, gan gynnwys atodiadau																																																																																																																																			
<b>Cyfnod Allweddol 5</b>																																																																																																																																			
Cyflwyno i LIC (Rhe 22)																																																																																																																																			
<b>Cyfnod Allweddol 6</b>																																																																																																																																			
Archwiliad yn cynnwys cyfarfod cyn-gwrandawriad (Rhe 23)																																																																																																																																			
<b>Cyfnod Allweddol 7</b>																																																																																																																																			
Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rhe 24)																																																																																																																																			
<b>Cyfnod Allweddol 8</b>																																																																																																																																			
Mabwysiadu (Rhe 25, 25A)																																																																																																																																			
<b>Cyfnod Allweddol 9</b>																																																																																																																																			
Monitro ac Adolygu (Rhe 37)																																																																																																																																			

## Atodiad 2: Amserlen a Chynnwys y Gymuned

Cam	Diben	Amserlen*	Pwy i'w gynnwys?	Sut?	Mecanwaith Adrodd
<b>Cam Allweddol 1 – Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 5 – 10)</b>					
Cyhoeddi cytundeb cyflawni drafft ar gyfer ymgynghoriad	Galluogi'r holl randdeiliaid a phartïon sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau.	<b>Chwefror 2018 – Mawrth 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Swyddogion y Cyngor</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori penodol (gweler Atodiad 5)</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill (gweler Atodiad 5)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Cyfryngau Digidol Eraill</li> <li>▪ Postio</li> <li>▪ Uniongyrchol</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> <li>▪ Datganiadau i'r Wasg</li> </ul>	Caiff sylwadau eu hystyried a'r cytundeb cyflawni ei ddiwygio pe bai angen.
Asesu ac ystyried adborth ac ymatebion a dderbynnir	Caniatáu i'r sylwadau a dderbyniwyd gael eu hystyried.	<b>Mawrth 2018 – Mehefin 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> </ul>	Caiff crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac ymatebion ei adrodd i aelodau.
Cyflwyno'r cytundeb cyflawni i Lywodraeth Cymru	Ceisio cytundeb ffurfiol ar gynnwys y cytundeb cyflenwi.	<b>Mehefin 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Llywodraeth Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> </ul>	

Cam	Diben	Amserlen*	Pwy i'w gynnwys?	Sut?	Mecanwaith Adrodd
Cyhoeddi'r cytundeb cyflawni cymeradwy ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru	Hysbysu rhanddeiliaid am gynnwys ac argaeledd y cytundeb cyflenwi cymeradwy.	<b>Mehefin - Gorffennaf 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori penodol</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Cyfryngau Digidol Eraill</li> <li>▪ Postio</li> <li>▪ Uniongyrchol</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> <li>▪ Datganiadau i'r Wasg</li> </ul>	Copïau o'r cytundeb cyflenwi cymeradwy wedi'u rhoi ar wefan y cyngor ac mewn lleoliadau adneuo.
<b>Cam Allweddol 2 – Cyn-adneuo: Paratoi a Chymryd Rhan (Rheoliad 14)</b>					
Adolygu a datblygu gwybodaeth a thystiolaeth sylfaenol	Deall a datblygu'r cyd-destun ar gyfer paratoi'r cynllun, adolygu'r data, ac ychwanegu ato er mwyn nodi materion ac amcanion yr ymdrinnir â nhw yn y CDLI.  Bydd hyn yn digwydd yn barhaus drwy gydol proses y CDLI.	Chwefror 2018 – Chwefror 2020	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori penodol</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Postio</li> <li>▪ Uniongyrchol</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> <li>▪ Cyfarfodydd</li> </ul>	Paratoi sail dystiolaeth hyd nes y cyflwynir y CDLI adneuo.
Adolygu a datblygu opsiynau, materion ac amcanion strategol	Datblygu gweledigaeth ar gyfer ardal y cynllun a'r amcanion ar gyfer y CDLI, a dylanwadu ar yr opsiwn a ffefrir.	<b>Chwefror 2018 – Ebrill 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Swyddogion y Cyngor</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol</li> <li>▪ Aelodau'r Cyngor</li> <li>▪ Cynghorau Tref a Chymuned</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Seminarau / Gweithdai</li> <li>▪ Cyfarfodydd</li> </ul>	Cyhoeddi gweledigaeth ac amcanion a gytunwyd ar wefan y Cyngor fel rhan o baratoi'r Strategaeth Cydadneuo a Ffefrir.
Cam A Arfarniad o Gynaliadwyedd: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas (a adwaenir fel adroddiad	Ffocysu ymgysylltiad ar gyrrff ymgynghori amgylcheddol a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu amcanion yr arfarniad o gynaliadwyedd ac i ddarparu llinell	<b>Chwefror 2018 – Ebrill 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyrff ymgynghori amgylcheddol</li> <li>▪ Swyddogion y Cyngor</li> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori penodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Cyfryngau Digidol Eraill</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> </ul>	Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor.

Cam	Diben	Amserlen*	Pwy i'w gynnwys?	Sut?	Mecanwaith Adrodd
cwmpasu'r arfarniad o gynaliadwyedd), a chychwyn ymgynghoriad	syfaen i lywio cam nesaf yr arfarniad o opsiynau.		<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Seminarau / Gweithdai</li> <li>▪ Cyfarfodydd</li> </ul>	
Asesu ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag adroddiad cwmpasu'r arfarniad o gynaliadwyedd	Caniatáu i'r sylwadau a dderbyniwyd gael eu hystyried.	<b>Mehafin 2018 - Gorffennaf 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y cyngor</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> </ul>	Caiff crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac ymatebion ei adrodd i aelodau.
Cofrestr Safleoedd Ymgeisio	Gwahoddiad i gyflwyno safleoedd ymgeisio.	<b>Chwefror 2018 – Awst 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pob parti sydd â diddordeb</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> </ul>	Cofrestr Safleoedd Ymgeisio
Cyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisio	Caniatáu i bartïon sydd â diddordeb weld y safleoedd ymgeisio a gyflwynwyd.	<b>Medi 2018 - Hydref 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pob parti sydd â diddordeb</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Gyngor</li> </ul>	Cofrestr Safleoedd Ymgeisio
<b>Cam Allweddol 3 – Cyn-adneuo: Ymgynghori (Rheoliadau 15, 16 ac 16A)</b>					
Paratoi ac adrodd y Strategaeth a Ffefrir a'r Opsiynau.	Rhoi cyfle i randdeiliaid a phartïon sydd â diddordeb i gyfrannu at y gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir ac awgrymu newidiadau.	<b>Mai 2018 – Rhagfyr 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Swyddogion y Cyngor</li> <li>▪ Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Cyfryngau Digidol Eraill</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> <li>▪ Arddangosfeydd Cyhoeddus</li> <li>▪ Seminarau / Gweithdai</li> <li>▪ Cyfarfodydd</li> </ul>	Cyhoeddi ar wefan y Cyngor fel y bo'n briodol
Cam B Arfarniad o Gynaliadwyedd: Datblygu a mireinio'r opsiwn ac asesu effeithiau (a adwaenir fel adroddiad cychwynol / interim yr	Sicrhau bod opsiynau a safleoedd strategol yn cael eu hasesu yn ôl fframwaith arfaethedig yr arfarniad o gynaliadwyedd i lywio ac ategu'r Fersiwn Cyn-adneuo a Ffefrir.	<b>Gorffennaf 2018 - Rhagfyr 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyrff ymgynghori amgylcheddol</li> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori penodol*</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Cyfryngau Digidol Eraill</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> <li>▪ Arddangosfeydd Cyhoeddus</li> </ul>	Adroddiad yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir.

Cam	Diben	Amserlen*	Pwy i'w gynnwys?	Sut?	Mecanwaith Adrodd
arfarniad o gynaliadwyedd)			<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill*</li> <li>*Ymgynghoriad i gyd-fynd â'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Seminarau / Gweithdai</li> <li>▪ Cyfarfodydd</li> </ul>	
Adroddiad sgrinio cychwynnol ar gyfer yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd	Prif nod yr adroddiad hwn yw cwblhau'r rhan gyntaf o broses yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd a darparu cynllun cyfyngiadau i lywio ac ategu'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir	<b>Gorffennaf 2018 - Rhagfyr 2018</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyrff ymgynghori amgylcheddol</li> <li>▪ Tîm y CDLI</li> <li>▪ Panel ymgynghorol y CDLI</li> <li>▪ Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori penodol*</li> <li>▪ Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill*</li> <li>*Ymgynghoriad i gyd-fynd â'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Cyfryngau Digidol Eraill</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> <li>▪ Arddangosfeydd Cyhoeddus</li> <li>▪ Seminarau/ Gweithdai</li> <li>▪ Cyfarfodydd</li> </ul>	Adroddiad yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Strategaeth Cyn-adneuo a Ffefrir.
Cyhoeddi ac ymgynghori ynghylch y Strategaeth a Ffefrir (gan gynnwys safleoedd strategol), adroddiad cychwynnol / interim yr arfarniad o gynaliadwyedd (asesiad amgylcheddol strategol), ac adroddiad sgrinio'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd	Rhoi cyfle i randdeiliaid a phartion sydd â diddordeb gyfrannu at y gwaith o baratoi'r strategaeth a ffefrir, adroddiad cychwynnol / interim yr arfarniad o gynaliadwyedd (asesiad amgylcheddol strategol) ac adroddiad sgrinio'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac awgrymu newidiadau.	<b>Rhagfyr 2018 – Mawrth 2019</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pob rhanddeiliad a pharti sydd â diddordeb</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Gwefan y Cyngor</li> <li>▪ Cyfryngau Digidol Eraill</li> <li>▪ Postio Uniongyrchol</li> <li>▪ Dogfennau ar gael</li> <li>▪ Arddangosfeydd Cyhoeddus</li> <li>▪ Datganiadau i'r Wasg</li> <li>▪ Seminarau / Gweithdai</li> <li>▪ Cyfarfodydd</li> </ul>	Bydd y dogfennau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu rhoi mewn lleoliadau adneuo.
